# *Atodiad 7: Cofnodion y Cyngor Sir*

**Dydd Mercher 9fed Mawrth, 2022**

**7.2 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG SIR GAERFYRDDIN Y CAMAU NESAF A CHYTHUNDEB CYFLAWNI DIWYGIEDIG**

**Cofnodion:**
Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror, 2022 (gweler Cofnod 9), wedi ystyried adroddiad diweddaru ynghylch cynnydd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Diwygiedig ac, yn arbennig, effaith cyfres o ffactorau, materion a chanllawiau ar gynnydd a/neu gynnwys y Cynllun yn y dyfodol. Wrth fanylu ar y meysydd hynny, cynigiodd yr adroddiad gyfres o gamau nesaf a gofynnodd am gymeradwyo'r argymhellion i baratoi CDLl Adneuo Diwygiedig pellach i fynd i'r afael â'r goblygiadau sy'n deillio o'r materion a nodwyd a'u lliniaru a sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n weithdrefnol ac yn 'gadarn' gan alluogi ei fabwysiadu.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:-**

**“9.1 Rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion ddiwygio amserlen y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig a chytuno ar ei gynnwys gyda Llywodraeth Cymru;**

**9.2 Ystyried cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r angen i baratoi ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo cyfunol a dogfennau cysylltiedig;**

**9.3 Rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ar y cyd â'r Aelod Cabinet dros Gynllunio sefydlu Bwrdd Rheoli Maetholion Afon Tywi, datblygu ei gylch gwaith a pharatoi Cynllun Rheoli Maetholion;**

**9.4 Ar y cyd â chyrff cyhoeddus allweddol eraill, ymuno â'r bwrdd aelodaeth ar gyfer Bwrdd Rheoli Maetholion Afon Teifi, Afon Cleddau ac Afon Gwy”**